


‘Hawl i Siarad?’

Hawliau pobl ifanc o dan Gonfensiwn y
Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn

Canllawiau Athrawon



Prifysgol Caerwysg
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, Cymru (NYAS, Cymru)
Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswilt Plant (NACCC)



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Cynnwys	
Cyflwyniad	2
Paratoi i addysgu	2
Hawliau plant o dan CCUHP	3
Rheoli effaith gwahanu ac ysgariad	4
Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru	4
Cysylltiadau â'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn y Dyniaethau ac Iechyd a Lles	6
Cysylltiadau â'r 'camau cynnydd' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau	7
Dysgwyr ag anghenion ychwanegol	10
Diogelu	11
Creu amgylchedd dysgu diogel	12
Datblygu dealltwriaeth	13
Geirfa termau	13
Cefnogaeth i athrawon	15
Cefnogaeth i athrawon	15
Cefnogaeth i ddysgwyr	15
Adnodd 1: Hawliau pobl ifanc o dan CCUHP	17
Amser a awgrymir	17
Asesiad sylfaenol	19
Gweithgareddau craidd	20
Asesu'r dysgu	24
Adnodd 2: Hawliau pobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu	27
Amser a awgrymir	27
Asesiad sylfaenol	29
Gweithgareddau craidd	31
Asesu'r dysgu	38
Cwis cyflym	39

Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y canllawiau hyn i gyd-fynd ag adnodd addysgu dwy ran ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar lefel Camau Cynnydd 4 a 5 sy'n canolbwyntio ar hawliau pobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('CCUHP'). Yn Adnodd 1, bydd dysgwyr yn dysgu am yr hawliau allweddol sydd gan blant a phobl ifanc o dan CCUHP. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i fynegi eu barn pan fo penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am eu bywydau ac i oedolion gymryd y farn honno o ddifrif (Erthygl 12). Yn Adnodd 2, bydd Erthygl 12 yn cael ei hystyried ymhellach mewn perthynas â hawliau pobl ifanc i wybodaeth, ymgynghori a (pan fo angen) cynrychiolaeth pan fydd eu rhieni yn gwahanu.

Mae'r adnoddau addysgu wedi'u cynllunio i'w haddysgu o fewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) sy'n orfodol yn y [Cwricwlwm i Gymru](#)¹. Mae'r adnoddau hefyd yn cefnogi addysgu ar hawliau pobl ifanc, gan eu helpu i ddod yn ddinasyddion gwybodus o Gymru a hyrwyddo gwell iechyd meddwl a llesiant i ddysgwyr ar ôl i'w rhieni wahanu. Mae'r ddysg yn disgyn yn bennaf o dan 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ym [Meysydd Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau](#) ac [Iechyd a Lles](#), fodd bynnag, gall fod datganiadau eraill o'r hyn sy'n bwysig a all fod yn berthnasol.

Mae'r adnoddau addysgu wedi'u hysgrifennu gan ymchwilwyr yn Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerwysg, gan weithio ar y cyd â dau fudiad sy'n arbenigo mewn diwallu anghenion pobl ifanc ar ôl i'w rhieni wahanu: y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol (NYAS) a'r Gymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC).

Darllenwch ac ystyriwch y canllaw hwn yn gyntaf cyn addysgu'r adnodd.

Paratoi i addysgu

Dylid addysgu'r adnoddau addysgu hyn fel rhan o ddysgu ehangach am hawliau pobl ifanc a pherthnasoedd iach, yng nghyd-destun rhieni'n gwahanu, o fewn rhaglen sy'n cwmpasu ACRh a Dinasyddiaeth, yn ogystal ag Iechyd a Lles. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gallu nodi'r hawliau sydd ganddynt o dan CCUHP, yn enwedig eu hawl i fynegi eu barn a bod y safbwyntiau hynny'n cael eu cymryd o ddifrif pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am eu bywydau, gan gynnwys pan fydd rhieni'n gwahanu. Mae angen i bobl ifanc hefyd ddysgu dulliau o reoli galar ynghylch newid perthnasoedd, gan gynnwys effaith gwahanu ac ysgariad, y ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt pan fydd rhieni'n gwahanu, a sut i gael gafael arnynt. Mae cynlluniau PowerPoint gyda'r nodiadau isod ar gyfer pob adnodd wedi'u hatgynhyrchu yn yr adran nodiadau o dan y sleidiau er hwylustod wrth addysgu.

¹ Fel y diweddarwyd ar 10 Ionawr 2022 yn unol â Deddf Cwricwlwm Cymru 2021

Hawliau plant o dan CCUHP

CCUHP yw'r "safon aur" fyd-eang ar gyfer hawliau plant ac mae'n nodi hawliau sylfaenol pob plentyn. Dyma'r cytundeb hawliau dynol a gadarnhawyd fwyaf aml a chyflym mewn hanes. Mae'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd a diwylliannol pob plentyn. Mae llywodraethau'n cytuno i ddiogelu'r hawliau a sicrhau bod oedolion a phlant yn gwybod amdanynt. Fe'i llofnodwyd ym 1989 a'i 'chadarnhau' gan y DU, gan nodi trwy hynny cydsyniad y DU i ymrwymo i delerau'r confensiwn, ym 1991. Mae wedi'i lofnodi gan 196 o wledydd y mae pob un ohonynt heblaw UDA wedi'i gadarnhau.² Mae ganddo bedair egwyddor arweiniol (peidio â gwahaniaethu; budd pennaf y plentyn; yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad; a hawl plant i fynegi eu barn yn rhydd ac i gael eu clywed) sy'n berthnasol i bawb dan 18 oed.

Yn y DU, cymerodd Cymru yr awenau ar ymgorffori CCUHP yn neddfwriaeth gan basio [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) ("Y Mesur"). O fis Mai 2014, mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion roi'r pwysau priodol ar ofynion CCUHP, gan eu cydbwysu yn erbyn yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Mae'r Mesur hefyd yn gwneud Gweinidogion yn gyfrifol am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod am, yn deall ac yn parchu hawliau plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yn Erthygl 42 CCUHP.³

Mae hawliau dynol yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru.⁴ Rhaid i ysgolion hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP (a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau) ymhlith y rhai sy'n darparu dysgu ac addysgu mewn perthynas â chwricwlwm eu hysgol.⁵

Bydd gosod yr adnodd addysgu dwy ran hwn o fewn fframwaith CCUHP yn helpu dysgwyr i ddysgu am eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion a hefyd yn sicrhau bod pwnc sensitif hawliau pobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu yn cael ei addysgu mewn ffordd sy'n gyffredinol, nad sy'n creu stigma. Mae hawl pobl ifanc i wybodaeth, ymgynghoriad a (lle bo angen) cynrychiolaeth o fewn y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer eu dyfodol pan fydd rhieni'n gwahanu wedi'i ymgorffori yn Erthygl 12 CCUHP, ond anaml yr ymgynghorir â phobl ifanc. Mae ymchwil yn dangos bod pobl ifanc eisiau mynediad at wybodaeth a chymorth o ansawdd da a llais yn y broses o wneud penderfyniadau pan fydd rhieni'n gwahanu. Canfuwyd bod methu â darparu gwybodaeth i bobl ifanc ar yr adeg sensitif hon yn ychwanegu at eu

² O dan gyfansoddiad yr UD, Erthygl II, Cymal 2, Adran 2, unwaith y bydd confensiwn wedi'i lofnodi mae'r Llywydd yn ei anfon at y Senedd sy'n gorfod ei gymeradwyo gyda mwyafrif o ddau draean. Er y llofnodwyd CCUHP dan weinyddiaeth Clinton, mae'r Arlywydd Clinton a'i olynwyr wedi methu ag anfon y confensiwn i'r Senedd i gadarnhau'r hawliau hyn i gyfreithiau'r UD.

³ Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a.5

⁴ Ynghyd ag ACRh, amrywiaeth, gyrfaoedd a phrofiadau yn ymwneud â gwaith a chyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

⁵ Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a 64(1).

synnwyr o ddryswch ac ansicrwydd. Mae'r adnoddau addysgu'n mynd i'r afael â hyn drwy nodi pa hawliau sydd gan bobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu.

Rheoli effaith gwahanu ac ysgariad

Gwahanodd rhieni 287,000 o bobl ifanc yn y DU yn 2020. Dengys ymchwil gan Brifysgol Caerwysg bod awydd cryf ymhlith pobl ifanc i gael gwybodaeth o ansawdd uchel o ffynhonnell ddibynadwy ac iddynt ddeall a chael eu holi ynghylch pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith ar eu cyfer pan fydd eu rhieni'n gwahanu.⁶ Dengys ymchwil fod pobl ifanc yn ymdopi'n well pan ymgynghorir â hwy ar y trefniadau a bod y trefniadau a wneir yn para'n hwy. Fodd bynnag, p'un a yw rhieni'n cytuno ar faterion mewn achos llys neu heb fynd i'r llys, anaml yr ymgynghorir â phobl ifanc.⁷ Bydd canlyniadau'r adnoddau hyn yn helpu dysgwyr i ddeall a gobeithio normaleiddio'r ystod o emosiynau y gallai pobl ifanc eu teimlo pe bai eu rhieni'n gwahanu. Dylai hyn helpu pobl ifanc sy'n dod i delerau â gwahanu neu eu helpu i gefnogi eraill sy'n mynd drwy'r broses hon. Nod yr adnoddau addysgu yw egluro'r prosesau cyfreithiol sy'n ymwneud â gwahanu. Maent yn esbonio'r symudiad i ysgariad 'dim bai', y bydd Deddf Ysgaru, Diddymu a Gwahanu 2020 yn ei gyflwyno o fis Ebrill 2022. Byddant hefyd yn rhoi manylion i bobl ifanc am ffynonellau cymorth a sut i gael gafael arnynt pan fydd rhieni'n gwahanu a fydd yn cefnogi dysgwyr i addasu i fywyd teuluol ar ôl gwahanu. Mae hyn yn cysylltu â'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer [Iechyd a Lles](#) sy'n nodi bod y ffordd rydym yn prosesu ac yn ymateb i'n profiadau yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles ac y dylai'r dysgu alluogi dysgwyr i adnabod pryd a ble i geisio cymorth a chefnogaeth i hybu eu hiechyd meddwl a'u lles.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r adnoddau addysgu wedi eu cynllunio i gwrdd â gofynion y [Cwricwlwm i Gymru](#). Maent yn helpu i fodloni dau o'r [pedwar diben](#)⁸ sy'n cynorthwyo dysgwyr i ddod:

yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:

yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.**

yn unigolion iach, hyderus sydd:

⁶ Barlow A, Ewing J, Hunter R a Smithson, J. (2017) *Creating Paths to Family Justice: Briefing paper and report on key findings*. Prifysgol Caerwysg.

⁷ Ar gyfer yn y llys, gweler 'The Harm Report' t. 66 (https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/895173/assessing-risk-harm-children-parents-pl-childrens-cases-report_.pdf) ac ar gyfer y tu allan i'r llys, gweler 'The Report of the Family Solutions Group' t. 22 (https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/11/FamilySolutionsGroupReport_WhatAboutMe_12November2020-2.pdf-final-2.pdf).

⁸ Deddf Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) 2021, a 2(1).

yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi

yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach

ac **yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

Mae'r tabl isod yn dangos canllaw, ond nid rhestr gyflawn, o sut mae'r adnoddau addysgu yn cyd-fynd ag addysgu ar hawliau yng [Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru](#) a'r [Arweiniad ar ACRh](#). Mae ACRh yn elfen drawsbynciol, gan dynnu ar wahanol feysydd dysgu a disgyblaethau pwnc yn ogystal â bod yn rhan o lechyd a Lles. Gan adeiladu ar ofyniad y [Cod ACRh](#) bod addysgu ACRh yng Nghymru yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, mae'r adnoddau addysgu yn helpu dysgwyr i reoli perthnasoedd sy'n newid os yw rhieni'n gwahanu, a dysgu am ffynonellau cymorth a sut i gael gafael arnynt. Mae'r adnoddau addysgu wedi'u dyfeisio i'w defnyddio yng Ngham 3 o'r cod ACRh, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Gamau 1 a 2 i atgyfnerthu a chryfhau gwybodaeth a sgiliau.

Canllawiau Cwricwlwm i Gymru	Arweiniad ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
<p>Mae datblygiad y cwricwlwm:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ yn fodd pwysig o sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhan ganolog o brofiadau dysgu ein plant a'n pobl ifanc, ac o sicrhau eu bod yn deall eu hawliau.	<p>Dylai ACRh alluogi hawliau dynol</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Dylai ysgolion a lleoliadau drafoed ACRh yng nghyd-destun hawliau plant fel y'u hamddiffynnir gan CCUHP. <p>Dylai dysgu mewn ACRh dynnu sylw at:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ yr hawl i gael gwrandawriad a chael eich cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau (Erthygl 12). <p>Gan adeiladu ar y Cod ACRh, dylai'r ymagwedd at ACRh fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen cefnogi dysgwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none">▪ ddeall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau [yma, os yw rhieni'n gwahanu] a cheisio cymorth a chyngor lle bo'n briodol.

Cysylltiadau â'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn y Dyniaethau ac Iechyd a Lles

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r adnoddau addysgu yn cyd-fynd â rhai o'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' yn y [Dyniaethau](#) ac [Iechyd a Lles](#) yn y drefn honno. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yr ydym wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn yn rhai enghreifftiau o'r hyn y gallwn ei ddefnyddio ar gyfer yr adnoddau hyn. Mae'n bosib bod mwy o 'ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig' y mae'r adnoddau hyn yn perthyn iddynt.

Y Dyniaethau	Iechyd a Lles
<p>Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.</p> <p>Yn Adnodd 1, gan ystyried sut mae rhai actifyddion ifanc yn 'lleisio'u barn' ac yn Adnoddau 1 a 2, bydd dysgu rhai hawliau allweddol o dan CCUHP yn helpu dysgwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ feithrin dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion Cymru a'r byd rhyng-gysylltiedig ehangach; ■ fod yn ddinasyddion gweithredol, gwybodus a chyfrifol; ■ feithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain (gan gynnwys yr hawliau a warchodir i dan CCUHP), ynghyd â'u hanghenion, eu pryderon a'u teimladau hwy eu hunain a phobl eraill; ■ weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang, gan ddangos ymrwymiad i gyfiawnder, amrywiaeth a 	<p>Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.</p> <p>Yn Adnodd 2, bydd trafod a normaleiddio'r ystod o emosiynau y gall pobl ifanc fynd drwyddynt pan fydd rhieni'n gwahanu yn helpu dysgwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ■ archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol...[a] galluogir dysgwyr i ddeall nad yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson; ■ [datblygu] empathi... [gall hyn eu galluogi] i ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol eraill; ■ datblygu strategaethau sydd o gymorth iddyn nhw reoli eu hmosiynau; ■ sylwi pryd a lle mae ceisio help a chefnogaeth; ■ datblygu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a [bod] gallu eirioli ar ran eraill; ■ [dysgu] sut i fynegi eu teimladau [felly] bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle

<p>diogelu'r amgylchedd, ynghyd â dealltwriaeth ohonyn nhw;</p> <ul style="list-style-type: none"> archwilio cysyniadau gan gynnwys dinasyddiaeth, awdurdod a llywodraethiant, rhyng-gysylltu, cyfiawnder a chdraddoldeb, menter, hawliau, a gweithredu a chyfrifoldeb cymdeithasol. 	<p>mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.</p> <p>Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.</p> <p>Yn Adnodd 2, sy'n trafod rhieni'n gwahanu, y bydd llawer o bobl ifanc yn cael profiad ohono, bydd yr addysgu yn helpu dysgwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> ddeall a gwerthfawrogi sut mae'r ymdeimlad o berthyn a chyswllt a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles; sylweddoli pan nad yw'r cydberthnasau yn iach a... bod yn ymwybodol o sut i fod yn ddiogel, a cheisio cymorth iddyn nhw eu hunain ac i eraill; deall y byddan nhw'n cael profiad o amrywiaeth o gydberthnasau drwy gydol eu bywydau; datblygu eu gallu i... feithrin a chynnal cydberthnasau.
---	---

Cysylltiadau â'r 'camau cynnydd' yn Iechyd a Lles a'r Dyniaethau

Mae enghreifftiau o ddilyniant yn cynnwys bod yn rhaid i ddysgwyr ailedrych ar a dyfnhau dysgu mewn cysyniadau o fewn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar draws ystod eang o destunau ac agweddau ar y Dyniaethau ac Iechyd a Lles yn y drefn honno. Yn y Dyniaethau byddant wedi dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'u hawliau gan gynnwys y rhai o dan CCUHP. Yng Ngham Cynnydd 3 Iechyd a Lles, bydd dysgwyr wedi dysgu am fanteision cyfathrebu am deimladau a cheisio cymorth. Mae'r tablau isod yn dangos enghreifftiau o rai dulliau yn yr adnoddau addysgu y gellir eu cymryd i helpu dysgu o dan Gamau Cynnydd 4 a 5 ar gyfer y [Dyniaethau](#) ac [Iechyd a Lles](#).

Y Dyniaethau

Cam Cynnydd 4

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Yn Adnodd 1, gan ystyried sut mae rhai actifyddion ifanc yn 'lleisio'u barn' ac yn Adnoddau 1 a 2, bydd dysgu rhai hawliau allweddol o dan CCUHP yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 4.

- Gallaf egluro pwysigrwydd y rolau a chwaraeir gan unigolion, cymdeithasau, mudiadau cymdeithasol a llywodraethau wrth amddiffyn hawliau dynol pobl.
- Gallaf wneud penderfyniadau, nodi cyfleoedd a chynllunio camau gweithredu priodol i sicrhau bod fy llais yn cael ei glywed.
- Rwyf wedi nodi, cynllunio, ystyried a gwerthuso effeithiau'r camau a gymerais yn fy nghymuned leol, neu yng Nghymru neu'r byd ehangach, naill ai'n unigol neu ar y cyd.

Cam Cynnydd 5

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Yn Adnodd 1, gan ystyried sut mae rhai actifyddion ifanc yn 'lleisio'u barn' ac yn Adnoddau 1 a 2, bydd dysgu rhai hawliau allweddol o dan CCUHP yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 5.

- Gallaf werthuso achosion troseddau hawliau dynol a'r ffactorau amrywiol sy'n tanseilio neu'n cefnogi hawliau pobl.
- Gallaf werthuso pwysigrwydd y rolau a chwaraeir gan unigolion, cymdeithasau, mudiadau cymdeithasol a llywodraethau wrth barchu ac amddiffyn hawliau dynol pobl.

Iechyd a Lles

Cam Cynnydd 4

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Yn Adnodd 2, bydd trafod rhieni'n gwahanu, normaleiddio'r ystod o emosiynau y gall pobl ifanc fynd drwyddynt pan fydd rhieni'n gwahanu a thrafod ffynonellau cymorth yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 4.

- Gallaf nodi gwahanol strategaethau ar gyfer hunanreoleiddio fy emosiynau mewn ymateb i ystod o brofiadau.
- Gallaf eirioli fanteision cyfathrebu am deimladau fel un o ystod o strategaethau a all helpu i hybu iechyd meddwl cadarnhaol a lles emosiynol.
- Gallaf adnabod pobl a grwpiau a all fy helpu gyda fy iechyd meddwl a lles emosiynol.
- Gallaf fyfyrrio a dysgu o'r gorffennol er mwyn rhagweld a pharatoi fy hun ac eraill ar gyfer profiadau yn y dyfodol.
- Gallaf ddangos empathi ag eraill a deall gwerth dangos hyn trwy weithredoedd sy'n dosturiol ac yn garedig.

Cam Cynnydd 5

Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.

Yn Adnodd 2, bydd trafod rhieni'n gwahanu, normaleiddio'r ystod o emosiynau y gall pobl ifanc fynd drwyddynt pan fydd rhieni'n gwahanu a thrafod ffynonellau cymorth yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 5.

- Gallaf ddefnyddio fy hunan-ymwybyddiaeth i werthfawrogi cymhlethdod fy emosiynau a defnyddio strategaethau i'w hunan-reoleiddio mewn ffordd iach ac i gysylltu ag eraill.
- Gallaf gyfrannu at ddiwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn cael ei annog a'i normaleiddio.
- Gallaf adnabod pryd i geisio cymorth ar sail dealltwriaeth dda o'm hiechyd meddwl a'm lles emosiynol.
- Gallaf ymateb i brofiadau cyfoes, yn ogystal â myfyrrio, a dysgu o'r gorffennol, er mwyn rhagweld a pharatoi fy hun ac eraill ar gyfer profiadau'r dyfodol.
- Gallaf ddangos empathi ag eraill sy'n fy helpu i fod yn drugarog a charedig tuag at fy hun ac eraill.

Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Yn Adnodd 2, sy'n trafod rhieni'n gwahanu, y bydd llawer o bobl ifanc yn cael profiad ohono, bydd yr addysgu yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 4:

- Gallaf ddangos ymwybyddiaeth ddatblygol o natur gymhleth perthnasoedd.
- Rwy'n gallu cyfathrebu fy anghenion a theimladau, a pharchu rhai pobl eraill.

Gallaf arfer fy hawliau fy hun a pharchu hawliau pobl eraill, a gallaf gydnabod y gall hawliau gael eu torri.

Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

Yn Adnodd 2, sy'n trafod rhieni'n gwahanu, y bydd llawer o bobl ifanc yn cael profiad ohono, bydd yr addysgu yn helpu dysgwyr i gyrraedd y canlynol yng Ngham Cynnydd 5:

- Gallaf ddangos dealltwriaeth o natur gymhleth perthnasoedd mewn ystod o gyd-destunau a dealltwriaeth o sut mae ystod o ffactorau yn dylanwadu arnynt.
- Gallaf gymryd camau i osgoi gwrthdaro ac i dynnu fy hun o berthnasoedd anniogel. Gallaf dynnu ar systemau cymorth i mi fy hun ac eraill pan fo angen.
- Gallaf eirioli dros fy hawliau fy hun a rhai pobl eraill.

Dysgwyr ag anghenion ychwanegol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhieni plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn sôn am lefelau uwch o drallod mewn perthynas ac yn ystyried ysgariad neu wahanu yn amlach.⁹ Gall y testunau a gwmpesir yn yr adnoddau addysgu hyn felly fod yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.


Mae'r Ddeddf berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i'r dysgu sy'n cwmpasu ACRh a ddarperir gan ysgolion fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr.¹⁰ Golyga hyn bod yn rhaid i ysgolion a lleoliadau ystyried ystod o ffactorau gan gynnwys oedran y dysgwr; gwybodaeth ac aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld eu datblygiad seicolegol ac emosiynol. Rhaid i ACRh fod yn briodol i ddatblygiad pob dysgwr, sy'n golygu y gall anghenion dysgwyr o oedrannau tebyg amrywio.¹¹ Dylai pob aelod o staff, nid dim ond athrawon, fod yn ymwybodol o ddull yr ysgol o ymdrin ag ACRh wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

⁹ Relate (2017) Under pressure: The relationships of UK parents who have a child with a learning disability ar gael yn: https://www.relate.org.uk/sites/default/files/the_way_we_are_now_-_under_pressure_report_0.pdf

¹⁰ Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a 24(2) (ysgolion a gynhelir) a 50(4) (Unedau Cyfeirio Disgyblion)

¹¹ Pan fo trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer dysgwr o dan adran 19A Deddf Addysg 1996 (nad yw'n Uned Cyfeirio Disgyblion) rhaid i gwricwlwm a sicrhawyd ar gyfer y dysgwr hwnnw fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygiad y plentyn hwnnw (adran 53(4) Deddf 2021).

Dylai ysgolion sy'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol, dwys a lluosog ystyried wrth ddylunio'r cwricwlwm beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr nad yw eu dealltwriaeth o faterion iechyd a llesiant rhywiol o bosibl yn cyd-fynd â'u datblygiad. Mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion sydd â dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol a difrifol addasu'r adnoddau addysgu i fodloni gwahanol anghenion eu dysgwyr.

Dylai athrawon gynllunio sut y gallant wahaniaethu addysgu i gynnwys a chefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ysgafn neu y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae gan Adnodd 1, sleidiau 21, 30 a 33 ac Adnodd 2, sleidiau 18 a 21, weithgareddau cefnogaeth ar gyfer y dysgwyr hynny, wedi'u nodi gyda .

Diogelu

Mae rheoli'r galar sy'n gysylltiedig â rhieni'n gwahanu yn bwnc emosiynol. Mae'r adnodd addysgu dwy ran hwn wedi'i leoli o fewn trafodaeth am hawliau plant yn fwy cyffredinol o dan CCUHP, er mwyn sicrhau bod yr addysgu'n gyffredinol a heb stigma. Serch hynny, gan fod tua 82,000 o blant dibynol yn byw ar aelwydydd un rhiant yng Nghymru yn 2020,¹² mae'n debygol y bydd nifer o blant yn y dosbarth y mae eu rhieni wedi gwahanu, neu y mae eu ffrindiau agos neu eu teulu yn mynd trwy wahanu. Bydd eraill yn byw mewn cartrefi sydd â lefelau uchel o wrthdaro rhwng rhieni.

Dylid rhoi'r mesurau diogelu canlynol ar waith.

- Rhowch wybod i staff bugeiliol a diogelu am y dyddiadau y byddwch yn addysgu'r pwnc hwn a'u hannog i drafod cynnwys yr adnodd addysgu gydag unrhyw ddysgwyr sy'n cael cymorth ar ôl i rieni wahanu neu oherwydd anawsterau yn y cartref. Gall fod yn ddefnyddiol hysbysu rhieni perthnasol hefyd rhag ofn i ddysgwyr ddod adref gyda chwestiynau neu ddymuno trafod y materion hyn ymhellach.
- Rhowch gyfle i'r dysgwr/dysgwyr dynnu'n ôl o'r sesiwn ddysgu os yw'n briodol (heb fod disgwyl iddynt gyfiawnhau eu habsenoldeb i'w cyfoedion). Ystyriwch sut i fynd ar drywydd y sesiwn ddysgu a gollwyd gyda'r dysgwr/dysgwyr, gan y gallai'r dysgu hwn fod yn arbennig o berthnasol iddynt.
- Cyfeiriwch at ffynonellau cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl y sesiwn ddysgu.
- Sicrhewch fod pob athro sy'n cyflwyno'r deunyddiau yn gyfarwydd â pholisïau diogelu/amddiffyn plant yr ysgol a phrotocolau diogelu.

¹² Gweler:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/datasets/householdsbytypeofhouseholdandfamilyregionsofenglandandukconstituentcountries> (Tabl 7, Cymru).

Yn y pum mlynedd hyd at 2019, yng Nghymru y gwelwyd y newid mwyaf yng nghyfran y teuluoedd un rhiant o gymharu â rhanbarthau eraill y DU (gweler:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/families/bulletins/familiesandhouseholds/2019>).

- Os bydd dysgwr yn gwneud datgeliad am fater personol yn ystod y sesiwn ddysgu, yn dilyn yr addysgu, dylai athrawon gyfeirio at y polisi diogelu/amddiffyn plant a hysbysu'r Person Diogelu Dynodedig, fel y gellir rhoi cymorth priodol ar waith.

Creu amgylchedd dysgu diogel

Mae amgylchedd dysgu diogel yn helpu dysgwyr i fynegi barn ac ystyried safbwyntiau eraill yn ddiogel a dylid ei sefydlu ym mhob dysgu. O ystyried natur y testunau a drafodir yn Adnodd 2, mae'n arbennig o bwysig bod yr amgylchedd dysgu ar gyfer y dysgwyr yn ddiogel. Rhaid i athrawon fod yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r dysgwyr. Defnyddir technegau ymbellhau yn y sesiwn ddysgu – mae dysgwyr yn gwyllo fideo yn Adnodd 2 sy'n dilyn dau deulu dychmygol dros gyfnod o 12 mis, yn cael ei adrodd gan Tom, mab pedair ar ddeg oed un o'r teuluoedd, i archwilio hawliau pobl ifanc pan fydd eu rhieni yn gwahanu. Mae'r naratif yn normaleiddio sut y gall pobl ifanc deimlo ar yr adeg anodd hon o drawsnewid. Dylid annog dysgwyr i drafod sut mae'r bobl ifanc sy'n cael eu portreadu yn y fideo yn teimlo, er mwyn atal datgeliadau personol. Dylai athrawon gyfeirio at yr [Arweiniad ar ACRh](#) a'r [Cod ACRh](#) cyn addysgu.

Os yw dosbarth wedi sefydlu 'rheolau sylfaenol dosbarth' yna gellir defnyddio'r rhain, a gellir gofyn i'r dysgwyr hefyd ychwanegu at y rheolau sylfaenol fel y bo'n briodol. Fel arall, argymhellir y rheolau sylfaenol canlynol:

Sef:

- ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth bersonol amdanom ni ein hunain nac eraill
- byddwn yn cadw unrhyw beth y mae eraill yn ei ddweud yn gyfrinachol
- ni fyddwn yn barnu eraill
- ni fyddwn yn rhoi neb yn y fan a'r lle ac mae gennym ni'r hawl i basio
- byddwn yn siarad am 'rywun dwi'n nabod...' yn hytrach na defnyddio enw person
- byddwn yn gwneud sylwadau ar yr hyn a ddywedir, nid pwy sydd wedi ei ddweud
- ni fyddwn yn gofyn cwestiynau personol na cheisio codi cywilydd ar rywun
- byddwn yn ceisio cymorth yn yr ysgol/annog ffrindiau i geisio cymorth os oes angen.

Dylai athrawon hefyd:

- gael 'basged hoffwn holi'/blwch cwestiynau i ddysgwyr ofyn cwestiynau'n gyfrinachol
- adolygu a mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau a gyflwynir yn y 'fasged hoffwn holi'/blwch cwestiynau dienw
- gweithio o fewn polisiau'r ysgol ar ddiogelu a chyfrinachedd
- cysylltu ACRh â'r ymagwedd ysgol gyfan i gefnogi lles dysgwyr
- gwneud dysgwyr yn ymwybodol o ffynonellau cymorth, yn yr ysgol a thu allan

- egluro wrth y dysgwyr, er bod cyfrinachedd yn bwysig, os dywedir rhywbeth neu os bydd ymddygiad yn peri pryder, y gall athrawon siarad ag aelod arall o staff.

Dylai athrawon fod yn effro i unrhyw ddatgeliad posibl o drais domestig, yn enwedig wrth addysgu Adnodd 2 a dylent ymglyfarwyddo â [Trais yn erbyn menywod - pecyn cymorth addysgol cam-drin domestig a thrais rhywiol](#) a'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer ysgolion uwchradd: [Adnoddau addysgol ysgolion uwchradd](#).

Datblygu dealltwriaeth

Geirfa termau

Efallai na fydd llawer o'r termau a ddefnyddir yn yr adnoddau addysgu yn gyfarwydd i ddysgwyr oni bai bod eu rhieni wedi gwahanu. Er mwyn sicrhau bod termau cywir yn cael eu defnyddio yn ystod y sesiynau dysgu, nodir geirfa termau a ddefnyddir isod.

Adnodd 1

Term	Disgrifiad
Y Cenhedloedd Unedig	Sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd ym 1945 i gadw'r heddwch, helpu'r tlawd a diogelu hawliau.
Confensiwn	Cytundeb ffurfiol rhwng gwledydd ar faterion sydd o bwys i bob un ohonynt.
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn	Y 'safon aur' fyd-eang ar gyfer hawliau plant sy'n nodi hawliau sylfaenol pob plentyn.
Erthygl	Adran o gonfensiwn wedi'i rhifo sy'n cynnwys manylion yr hyn y cytunwyd arno.
Cadarnhawyd	Deddf ryngwladol sy'n cadarnhau cydsyniad Gwladwriaeth i fod yn rhwym i delerau'r confensiwn.
Corffori	Deddf sy'n gwneud telerau confensiwn yn rhan o gyfraith y Wladwriaeth.

Adnodd 2

Term	Disgrifiad
Cyfryngu	Proses wirfoddol lle mae gweithiwr proffesiynol annibynnol yn helpu rhieni sydd wedi gwahanu i ddod i gytundeb heb fynd i'r llys.
Cyfryngu sy'n cynnwys plant	Proses lle mae'r plentyn yn cyfarfod â'r cyfryngwr ar wahân er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed.
Llys Teulu	Dyma lle mae'r barnwr yn gwneud penderfyniadau pwysig am blant a'u teuluoedd os na all rhieni neu warcheidwaid gytuno.
Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd, Cymru (Cafcass Cymru)	Y sefydliad sy'n cynrychioli plant yn y llys ac yn rhoi cyngor annibynnol i'r llys beth sydd er lles gorau'r plentyn.
Cynghorydd Llys Teulu (FCA)	Y person o Cafcass sy'n cwrdd â'r plant i glywed eu dymuniadau a'u teimladau ac yn adrodd yn ôl i'r llys.
Cyfreithiwr	Person sydd wedi'i hyfforddi'n gyfreithiol sy'n rhoi cyngor i bobl sy'n mynd drwy'r llysoedd teulu ac sy'n gallu siarad ar eu rhan yn y llys.
Barnwr	Y person sy'n gweithio yn y llys sy'n gwrando ar bawb ac yn gwneud penderfyniad terfynol.
Canolfan Gyswilt	Man diogel lle gall plant a phobl ifanc weld rhiant nad ydynt yn byw gydag ef/hi.
Priodas	Undeb cyfreithiol rhwng cwpl cymysg neu o'r un rhyw.
Partneriaeth Sifil	Perthynas y gellir ei chofrestru rhwng cwpl cymysg neu o'r un rhyw.
Cyd-fyw	Cyd-fyw fel partneriaid heb fod yn briod nac mewn partneriaeth sifil.
Godineb	Cyfathrach rywiol â pherson o'r rhyw arall pan fyddwch yn briod â rhywun arall.
Ymgeisydd	Person sy'n gwneud cais i'r llys.
Atebydd	Person sy'n ymateb i gais a wneir i'r llys

Cefnogaeth i athrawon

Cefnogaeth i athrawon

I gael arweiniad pellach ar CCUHP, ewch i:

<https://www.unicef.org/media/62371/file/Convention-rights-child-at-crossroads-2019.pdf>

I gael arweiniad pellach ar ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yng Nghymru, ewch i:

<https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Right-Way.pdf>

I gael arweiniad pellach ar briodas, partneriaethau sifil a chyd-fyw ewch i:

www.gov.uk/browse/births-deaths-marriages/marriage-divorce

Cefnogaeth i ddysgwyr

I gael arweiniad pellach ar CCUHP, ewch i:

https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/08/GUIDE_Young_peoples_Guide_to_the_UNCRC.pdf

I gael arweiniad pellach ar ffynonellau cymorth ar gyfer rhieni'n gwahanu ewch i:

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol, Cymru (NYAS Cymru):

<https://www.nyas.net/nyas-cymru/> (Ffôn: 0808 8081001)


Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant: <https://nacc.org.uk> (Ffôn: 01159 484557)

Cafcass Cymru: <https://gov.wales/cafcass-cymru/family-separation> (Ffôn: 0300 456 4000)

Childline Cymru: <https://www.childline.org.uk/info-advice/home-families/family-relationships/divorce-separation/> neu ar gyfer y fersiwn Gymraeg:

<https://www.childline.org.uk/get-support/contacting-childline/contacting-childline-in-welsh/> (Ffôn: 0800 1111)

Relate Cymru: <https://www.relate.org.uk/cymru/children-and-young-peoples-counselling> (Ffôn: 03000030396)



‘Hawl i Siarad?’
Hawliau pobl ifanc o dan Gofensiwn y
Cenedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn
Adnodd I



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Adnodd 1: Hawliau pobl ifanc o dan CCUHP

Dyma'r cyntaf o ddau adnodd addysgu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Gamau Cynnydd 4 a 5 sy'n canolbwyntio ar hawliau pobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig eu hawl yn Erthygl 12 i gael eu clywed pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am eu bywydau gan gynnwys pan fydd rhieni'n gwahanu. Isod ceir trosolwg o'r amcanion dysgu a'r canlyniadau dysgu ar gyfer y dysgu hwn, ynghyd â'r adnoddau sydd eu hangen a'r amser a awgrymir.

Amcanion dysgu

- Dysgu am yr hawliau allweddol sydd gan blant a phobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('CCUHP') a sut mae'r hawliau hyn yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru.
- Dysgu am wahanol ffyrdd y mae pobl ifanc yn gweithredu i ddatrys problemau a chyfrannu at gymdeithas.

Canlyniadau Dysgu

Bydd dysgwyr yn gallu:

- esbonio 4 egwyddor arweiniol CCUHP
- esbonio rhai o Erthyglau allweddol CCUHP a'r ddeddfwriaeth yng Nghymru sy'n amddiffyn yr hawliau hyn
- dadansoddi sut mae actifyddion ifanc yn gallu cael eraill i 'wrandu ar eu lleisiau'.

Adnoddau

- Nodiadau gludiog
- 'Basged hoffwn holi'/blwch cwestiynau i ddysgwyr ofyn cwestiynau'n gyfrinachol

Amser a awgrymir

Mae'r dysgu wedi'i gynllunio i gael ei addysgu am gyfnod o 55 munud.

Hinsawdd dysgu

Darllenwch y canllawiau i athrawon cyn addysgu am gyngor ar sefydlu rheolau sylfaenol, terfynau cyfrinachedd a ffynonellau cymorth.

Gweithgareddau atodol a gweithgareddau ychwanegol

Er mwyn gwahaniaethu rhwng addysgu mae gan rai gweithgareddau atodol a gweithgareddau ychwanegol wedi'u marcio ag eiconau isod ac ar y sleidiau.

Allweddeiriau

Hawliau plant
Lleisiau plant

Awgrymiadau dysgu ac amseru

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser a awgrymir
Cyflwyniad ac asesiad sylfaenol	Amcanion a chanlyniadau dysgu; bydd dysgwyr wedyn yn awgrymu allweddeiriau sy'n gysylltiedig â 'hawliau'.	5 mun
Cyflwyniad i'r Cenhedloedd Unedig	Gofynnir i ddysgwyr am yr hyn y maent yn ei wybod am y Cenhedloedd Unedig a chonfensiwn.	3 mun
Cywir neu anghywir?	Cwis cywir neu anghywir ar hawliau.	5 mun
Cyflwyniad i CCUHP a rhoi trefn ar hawliau	Bydd dysgwyr yn cael cyflwyniad i CCUHP a sut mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Yna dangosir 12 hawl i'r dysgwyr ac, ar eu byrddau, byddant yn eu rhoi mewn trefn.	15 mun
Hawliau allweddol	Bydd dysgwyr yn dysgu am rai o'r hawliau allweddol o dan CCUHP ac i ba raddau y mae'r hawliau hyn yn cael eu cynnal yn fyd-eang.	10 mun
Lleisio eich barn	Bydd dysgwyr yn ystyried Erthygl 12 a phedwar person ifanc sy'n lleisio'u barn.	10 mun
Asesiad diweddbwynt	Bydd dysgwyr yn ailedrych ar yr atebion sylfaenol ac yn eu hadolygu fel y bo'n briodol.	5 mun
Gwaith cartref neu dasg ychwanegol	Crynhoi (gan gynnwys ffynonellau cymorth) a gosod gwaith cartref (neu estyniad i'r gweithgaredd).	2 mun

Asesiad sylfaenol



5 Cyflwyniad ac asesiad sylfaenol (Beth yw hawliau?) – sleid 13-16

Trafodwch neu ailedrychwch ar y rheolau sylfaenol ar gyfer y dysgu. Cyflwynwch yr amcan dysgu a'r canlyniadau ac eglurwch y bydd y dysgu heddiw yn archwilio hawliau pobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

I ddechrau, **gofynnwch** i'r dosbarth cyfan:

- Beth yw hawliau? (Safonau yw hawliau sy'n cydnabod ac yn amddiffyn urddas pob bod dynol.)
- Pa allweddeiriau allai fod yn gysylltiedig â 'hawliau'? (Tegwch, cydraddoldeb, parch, budd-daliadau, cymorth).
- Pam fod angen gwarchod hawliau? (Sicrhau bod urddas dynol a chyd-raddoldeb yn cael eu rhoi i bawb.)

Naill ai gofynnwch i'r dysgwyr godi a symud o gwmpas yr ystafell, gan ychwanegu at waliau graffiti sydd â'r cwestiynau hyn fel penawdau. Neu, os oes yn well gennych, gallech ddosbarthu nodiadau gludiog i'r dysgwyr eu cwblhau mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, y byddant wedyn yn eu gosod ar bob 'wal'.

Fel arall, dosbarthwch nodiadau gludiog a gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu gair y bydden nhw'n ei gysylltu â hawliau ac yna eu gludo ar y bwrdd gwyn gan eu grwpio o amgylch geiriau sy'n pwysleisio 'tegwch' a geiriau sy'n pwysleisio 'haw!'.

Peidiwch â rhoi unrhyw awgrymiadau pellach, hyd yn oed os bydd dysgwyr yn gofyn cwestiynau. Ni ddylent rannu eu syniadau gyda chyd-ddisgyblion yn ystod y gweithgaredd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi weld beth yw credoau a syniadau'r dysgwyr eu hunain ar 'hawliau' cyn i'r dysgu ddechrau.



3 Cyflwyniad i'r Cenhedloedd Unedig - sleid 17

Gofynnwch i'r dysgwyr: Oes rhywun wedi clywed am y Cenhedloedd Unedig? Beth ydych chi'n meddwl y gallai ei wneud? A yw'n sefydliad sy'n berthnasol i blant wybod amdano? Os felly pam?

Ffurfiwyd y Cenhedloedd Unedig yn 1945, ar ôl yr Ail Ryfel Byd i geisio atal rhyfeloedd pellach. Mae ganddi 193 o aelod-wladwriaethau. Mae'r DU yn un o bum aelod parhaol Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig (yn ogystal ag UDA, Ffrainc, Tsieina a Rwsia).

Nodau'r Cenhedloedd Unedig [sydd yr un mor berthnasol i bobl ifanc ac oedolion] yw:

- cadw heddwch ar draws y byd
- datblygu cysylltiadau cyfeillgar rhwng gwledydd
- gweithio gyda'n gilydd i helpu i wella bywydau'r tlawd

- rhoi terfyn ar dlodi, afiechyd ac anllythrennedd yn y byd
- atal dinistr amgylcheddol
- annog parch at hawliau a rhyddid ein gilydd.

Gofynnwch hefyd i'r dysgwyr, beth yw confensiwn? Beth mae'n ei wneud? Ydych chi'n meddwl y gallai confensiwn fod o gymorth i blant?

Cytundeb ffurfiol rhwng gwledydd ar faterion sydd o bwys i bob un ohonynt yw confensiwn. Sefydlodd y Cenhedloedd Unedig gyfres o gonfensiynau i hyrwyddo hawliau dynol yn rhyngwladol ac i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau. Eglurwch y bydd dysgwyr yn y sesiwn ddysgu hon yn edrych ar un Confensiwn penodol, sef Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989 (CCUHP).



5 Cywir neu anghywir? – sleid 18

Er mwyn cychwyn trafodaeth ar CCUHP a mesur lefel ymwybyddiaeth dysgwyr o CCUHP, **gofynnwch** i'r dosbarth roi adborth fel grŵp ar yr wyth datganiad ar y sleid – pa rai o'r rhain sy'n hawliau o dan CCUHP? Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn ymgysylltu'n weithredol â'r dysgu, dywedwch wrth bob dysgwr i roi ei law i fyny neu i lawr/bawd i fyny neu i lawr, yn dibynnu ar beth maen nhw'n meddwl yw'r ateb ar gyfer pob cwestiwn.

Yn y modd sioe sleidiau, mae pob datganiad yn y blwch ar yr ochr chwith yn cael ei ddilyn gan ddatganiad yn y blwch ar y dde yn nodi a yw hwn yn hawl o dan CCUHP ai peidio. Dylid gofyn i ddysgwyr benderfynu a yw'r datganiad yn wir gan roi'r ateb cyn symud ymlaen i'r gosodiad nesaf.

Gweithgareddau craidd



15 Rhoi trefn ar hawliau - sleid 19-21

Defnyddiwch sleid 19 i amlinellu i'r dysgwyr ddyddiadau allweddol CCUHP a'r pedair egwyddor arweiniol:

- peidio â gwahaniaethu;
- budd pennaf y plentyn;
- yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad; a
- hawl plant i fynegi eu barn yn rhydd ac i gael eu clywed.

Yna darllenwch sut mae CCUHP yn cael ei roi ar waith yng Nghymru (sleid 20).

Amlinellir gwybodaeth bellach ar y pynciau ar sleid 7-9.

Yna cymerwch 10 munud i ofyn i'r dysgwyr ar eu byrddau i ddarllen yr hawliau o dan CCUHP ar sleid 21, i roi'r hawliau yn nhrefn pwysigrwydd yn eu barn nhw, ac i roi adborth ar eu 3 uchaf (ac os yw'n amser) ar y gwaelod.



Gweithgaredd atodol ystyriwch ofyn i'r dysgwyr ddewis yr hyn maen nhw'n meddwl yw'r hawl 'bwysicaf' neu'r '3 hawl bwysicaf' yn unig.



Gweithgaredd ychwanegol ystyriwch ofyn i'r dysgwyr ystyried beth allai rhai o'r heriau fod o ran sicrhau bod gan bob plentyn yr hawliau hyn (e.e. nid yw pob plentyn yn y byd yn byw mewn ardaloedd lle nad oes gwrthdaro).



10 Hawliau allweddol - sleid 22-26

Bydd y dysgwyr yn cael trosolwg o rai o erthyglau allweddol CCUHP ac i ba raddau y mae'r rhain wedi'u cynnal, yng Nghymru ac yn fyd-eang. Yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a lefel ymgysylltiad y dysgwr, mae rhywfaint o wybodaeth allweddol yn yr adran nodiadau ar bob sleid, gyda'r rhannau pwysicaf wedi'u hamlygu er hwylustod wrth addysgu. Mae Sleid 22-26 yn ystyried y tair egwyddor arweiniol gyntaf o'r pedair egwyddor yn fanylach. Pwyntiau allweddol i'w pwysleisio yw:

Erthygl 2: Amddiffyn rhag gwahaniaethu: Er gwaethaf hyn, yn fyd-eang mae merched yn llawer mwy tebygol o briodi'n gynnar, colli allan ar addysg a gwneud gwaith di-dâl na bechgyn.

Eglurwch i'r dysgwyr fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y DU hefyd yn darparu amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu i blant a phobl ifanc ar nifer o seiliau. Gofynnwch i'r dysgwyr pa hawliau sydd gan bobl ifanc yn eu barn nhw sy'n cael eu hamddiffyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ateb: hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred. Nodwch fod 'crefydd a chred' hefyd yn cael ei warchod gan 'Werthoedd Prydeinig' o barch a goddefgarwch tuag at y rhai sydd â ffydd a chredoau gwahanol.

Mae'r sleid hon yn cynnwys gwybodaeth am ddata penodol i Gymru gan gynnwys ethnigrwydd y 6ed Senedd (5% o leiafrifoedd ethnig o gymharu â 5.6% yng ngweddill Cymru) a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru (i lawr o 18.6% yn 2004 i 9.2% yn 2021).

Erthygl 3: Budd pennaf y plentyn: Mae hon yn egwyddor gyffredinol o CCUHP ar Hawliau'r Plentyn – pryd bynnag y bydd oedolion, boed yn rhieni, athrawon neu'r llywodraeth, yn gwneud penderfyniadau, yna rhaid i'r penderfyniadau hynny gael eu llywio gan yr hyn sydd er budd pennaf y plentyn.

Erthygl 6: Yr hawl i fywyd, goroesiad a datblygiad: Mae marwolaethau byd-eang plant wedi mwy na haneru ers llofnodi'r Confensiwn. Fodd bynnag, yn 2018, roedd cyfartaledd o 15,000 o blant dan 5 oed yn marw bob dydd.

Erthygl 24: Yr hawl i'r gofal iechyd gorau posibl, dŵr diogel i'w yfed, bwyd

maethlon, amgylchedd glân a diogel, a gwybodaeth i'ch helpu i gadw'n iach: Er gwaethaf datblygiadau, mae mwy nag 800 o blant yn dal i farw bob dydd o glefydau sy'n gysylltiedig â chyflenwad dŵr annigonol a glanweithdra a hylendid gwael.

Erthygl 28: Yr hawl i addysg: Mae canran y plant o oedran ysgol gynradd nad ydynt mewn ysgolion wedi mwy na haneru ers llofnodi CCUHP. Fodd bynnag, nid yw 59 miliwn o blant oed ysgol gynradd yn yr ysgol.

I gloi'r adran hon ac i wirio dealltwriaeth dysgwyr, **gofynnwch** i'r dysgwyr a yw'r wybodaeth y maen nhw newydd ei chlywed am wahanol hawliau wedi newid eu meddwl am eu trefn wreiddiol, ac yn seiliedig ar yr hyn maen nhw newydd ei glywed, beth maen nhw'n meddwl yw'r hawl bwysicaf heddiw sydd angen mynd i'r afael â hi'n fyd-eang.



10 Lleisio eich barn - sleid 27-30

Hawl plant i fynegi eu barn yn rhydd ac i gael pobl i wrando arnynt yw pedwaredd egwyddor arweiniol CCUHP ac mae wedi'i chynnwys yn Erthygl 12.

Mae'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer Iechyd a Lles yn nodi bod yn rhaid i ddysgwyr allu 'adnabod pryd a ble i geisio cymorth a chefnogaeth'. Yn Adnodd 2 o Hawl i Siarad? bydd dysgwyr yn archwilio'r ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt pan fydd eu rhieni'n gwahanu a sut i gael gafael ar y cymorth hwn. Bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o hawl Erthygl 12 pobl ifanc i leisio eu barn ac i oedolion wrando arni a'i chymryd o ddifrif. Felly i ddechrau trafod hyn, bydd dysgwyr yn ystyried gwahanol weithredwyr ifanc sydd wedi bod yn lleisio eu barn ar lwyfan y byd ac yng Nghymru.

Ar y modd sioe sleidiau dangoswch bob un o'r 3 gweithredwr ar sleid 28 i'r dosbarth.

Gofynnwch i'r dysgwyr pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wybod am bob unigolyn.

Greta Thunberg (ganed 03.01.03) yn Sweden. Mae hi'n ymgyrchydd newid hinsawdd. Siaradodd yn Uwchgynhadledd Gweithredu Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig a chafodd ei henwebu ar gyfer gwobr heddwch Nobel yn 2019. Mae hi hefyd wedi siarad am ei syndrom Asperger ac OCD gan helpu i normaleiddio problemau iechyd meddwl.

Malala Yousafzai (ganwyd 12.07.97) Mae hi'n actifydd addysg benywaidd. Goroedd ymgais i'w llofruddio yn 2012. Yn 2014, hi oedd y person ieuengaf erioed i ennill Gwobr Heddwch Nobel (17 oed).

Marcus Rashford (ganed Hydref 1997) Chwaraewr Pêl-droed Manchester United a Lloegr ac ymgyrchydd gwrth-dlodi. Sefydlodd y Tasglu Tlodi Bwyd Plant. Derbyniodd MBE yn 2020.

[Am ragor o fanylion gweler sleidiau athrawon 10 ac 11].

Nesaf, gofynnwch i'r dysgwyr **feddwl-paru-rhannu**: Pa hawliau maen nhw wedi ymgyrchu drostynt a sut maen nhw wedi ymgyrchu'n effeithiol dros yr hawliau hyn? [Gallai fod yn ddefnyddiol dangos Sleid 21 (yr ymarfer graddio) i'r dosbarth yma i'w hatgoffa o'r gwahanol hawliau i'w helpu i ateb y cwestiwn hwn ac i atgyfnerthu'r dysgu].

Greta Thunberg - Erthygl 6 (Hawl i fywyd) ac Erthygl 24 (hawl i amgylchedd glân a diogel). Mae hi wedi ymgyrchu'n effeithiol trwy streiciau ysgol, cyfryngau cymdeithasol, a siarad yn y Cenhedloedd Unedig.

Malala Yousafzai – Erthygl 28 (hawl i addysg) ac Erthygl 2 (hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu, gan gynnwys ar sail rhyw). Mae hi wedi ymgyrchu'n effeithiol trwy ysgrifennu blog ac ymddangos mewn rhaglen ddogfen cyn yr ymgais ar ei bywyd a thrwy sefydlu Cronfa Malala, gan gyd-ysgrifennu'r nofel lwyddiannus, 'I am Malala' ac annerch seneddau.

Marcus Rashford – Erthygl 26 (yr hawl i gymorth gan y llywodraeth os ydych yn dlawd neu mewn angen) ac Erthygl 3 (budd pennaf y plentyn fydd y brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad). Mae wedi ymgyrchu'n effeithiol drwy lobïo Llywodraeth y DU dros newid.

Mae Sleid 29 yn cyflwyno dysgwyr i'r ymgyrchydd Cymreig, **Seth Burke**. Ar y modd sioe sleidiau dangoswch y llun o Seth i'r dosbarth. Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n gwybod pwy yw e ac, os ydyn nhw, beth maen nhw'n ei wybod amdano. Gan fod Seth yn enw llai cyfarwydd na'r ymgyrchwyr eraill a ystyriwyd, mae gwybodaeth am ei rôl yn Senedd leuencid Cymru a'i flaenoriaethau ar gyfer ei gyfnod yn y swydd i'w gweld ar y sleid. Rhannwch y wybodaeth ategol yn y blwch ar y dde.

Mae Sleid 30 yn rhoi blaenoriaethau Seth ar gyfer ei gyfnod yn y swydd ar y sleid. Rhannwch y wybodaeth ategol yn y blwch ar y dde.

Gofynnwch pa rai o Erthyglau CCUHP sy'n ymdrin â'r materion y bydd Seth yn ymgyrchu yn eu cylch?

Unwaith eto, gallai fod o gymorth i ddysgwyr ddangos y gwahanol hawliau ar sleid 21 iddynt.

1. Diogelu ein hamgylchedd a'r byd naturiol. (Erthygl 24: Yr hawl i ofal iechyd da ac amgylchedd glân a diogel)
2. Gwell hygyrchedd i fannau cyhoeddus i bobl ag anableddau. (Erthygl 2: Yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu)
3. Mynd i'r afael â bwlio ar-lein. (Erthygl 19: Yr hawl i gael eich amddiffyn rhag niwed)
4. Mynd i'r afael ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc. (Erthygl 24: Yr hawl i ofal iechyd da)
5. Cynyddu mynediad i glybiau am ddim sy'n hybu gweithgaredd corfforol ymhlith plant a phobl ifanc. (Erthygl 31: Hawl i ymlacio a chwarae)

Gofynnwch: Pa sgiliau a phriodoleddau allai fod gan y pedwar gweithredwr ifanc hyn, ac eraill, yn gyffredin?

(gwybodaeth a dealltwriaeth o'u hawliau a hawliau pobl eraill, dyfalbarhad, gwydnwch, hunangred, penderfyniad, hyder.)



Gweithgaredd atodol ystyriwch ofyn i'r dysgwyr pwy yw'r unigolion hyn, a ydynt yn gwybod am unrhyw weithredwyr ifanc eraill, neu a allant nodi unrhyw faterion y mae pobl ifanc wedi ymgyrchu yn eu cylch yn ddiweddar.



Gweithgaredd ychwanegol ystyriwch ofyn i'r dysgwyr ystyried sut y gallai'r gweithredwyr hyn barhau i 'leisio eu barn a chael pobl i wrando' am flynyddoedd i ddod. Sut y gallent sicrhau eu bod yn cael effaith barhaol ar warchod yr hawliau hyn?

Asesu'r dysgu



5 Gweithgaredd asesiad diweddbwynt – sleid 31

Crynowch y syniadau a ysgrifennwyd ar y waliau graffiti gwreiddiol/ar nodiadau gludiog ar y waliau graffiti a gofynnwch i'r dosbarth a oes ganddynt unrhyw beth i'w ychwanegu nawr. Yn annibynnol, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu diffiniad eu hunain o beth yw hawliau a pham eu bod yn bwysig, ar sail eu dysgu o'r sesiwn ddysgu hon.



2 Ffynonellau cymorth a gosod gwaith cartref neu estyniad i'r gweithgaredd - sleid 32 a 33

I orffen, ewch drwy sleid 32 i atgoffa dysgwyr â phwy y gallant siarad yn yr ysgol, e.e. athro neu bennaeth blwyddyn, y tîm cymorth bugeiliol neu'r Person Diogelu Dynodedig (efallai y byddwch am bersonoli'r sleid hon gydag enwau staff cyswllt) neu'r tu allan i'r ysgol, e.e. Childline Cymru a Relate Cymru. Efallai bod rhai dysgwyr wedi clywed am Relate Cymru fel gwasanaeth cwnsela perthynas ond dywedwch wrthynt fod Relate Cymru hefyd yn cynnig cwnsela i bobl ifanc.

Fel gwaith cartref neu dasg ychwanegol ar sleid 33, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu am fater yr hoffent ymgyrchu yn ei gylch a pham. Gofynnwch iddynt nodi pa 'hawl' o dan CCUHP y mae'r mater a ddewiswyd ganddynt yn mynd i'r afael ag ef. Fel rhan o'r dasg hon, gofynnwch iddynt ymchwilio i weithredwyr amlwg sy'n ymgyrchu dros y mater o'u dewis ac ystyried pa gamau y gallent eu cymryd eu hunain i ymgyrchu dros y mater hwn yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y sesiwn ddysgu esboniwch i'r dysgwyr y byddan nhw'n dysgu am y canlynol yn Adnodd 2:

- sut y gall pobl ifanc 'lleisio'u barn' pan fydd rhieni'n gwahanu,

- y gwahanol ffynonellau cymorth sydd ar gael i bobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu, a
- phwnc ysgariad yn fwy cyffredinol

Dywedwch wrth y dysgwyr, os ydyn nhw'n dymuno, y gallan nhw roi gwybod i'r athro/athrawes/rhoi nodyn yn y 'fasged hoffwn holi' os yw hynny'n broblem iddyn nhw.



Gweithgaredd atodol: Ystyriwch roi enw person ifanc i'r dysgwyr sy'n 'lleisio'u barn' (ceir awgrymiadau, ynghyd â'r 'hawl' yr ymgyrchir drosto, ar sleid 33).



Gweithgaredd ychwanegol: Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut y gallent ymgyrchu dros y mater o'u dewis o fewn cymuned eu hysgol.



‘Hawl i Siarad?’
Hawliau pobl ifanc pan fydd rhieni'n
gwahanu -
CCUHP, Erthygl 12
Adnodd 2



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Adnodd 2: Hawliau pobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu

Dyma'r ail o ddau adnodd addysgu ar gyfer canolbwyntio ar hawliau pobl ifanc o dan CCUHP, yn enwedig eu hawl yn Erthygl 12 i leisio eu barn pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am eu bywydau gan gynnwys pan fydd rhieni'n gwahanu.

Amcanion dysgu

- Dysgu am hawliau plant a phobl ifanc i wybodaeth, ymgynghoriad ac (os oes angen) cynrychiolaeth os yw rhieni'n gwahanu o dan Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ('CCUHP') (gan gynnwys ffynonellau cymorth a sut i gael mynediad iddyn nhw).
- Dysgu am y system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â thor-perthynas.

Canlyniadau dysgu - bydd dysgwyr yn gallu:

- esbonio hawliau pobl ifanc o dan Erthygl 12, CCUHP pan fydd rhieni yn gwahanu
- disgrifio'r ystod o emosiynau y gall pobl ifanc eu teimlo pan fydd rhieni'n gwahanu
- nodi ffyrdd y gellir ymgynghori â phobl ifanc os yw rhieni'n gwahanu
- nodi ffynonellau cymorth ar gyfer y pobl ifanc hyn ac egluro sut i gael gfael arnynt
- esbonio'r newidiadau i'r gyfraith ar ysgariad a'r gwahaniaethau allweddol rhwng hawliau cyplau priod a dibriod ar dor-perthynas yng Nghymru a Lloegr.

Adnoddau

- Nodiadau gludiog
- Basged hoffwn holi/blwch cwestiynau i ddysgwyr ofyn cwestiynau'n gyfrinachol
- Taflen 'cwis cyflym' os ydych yn ei defnyddio

Amser a awgrymir

Mae'r dysgu wedi'i gynllunio i gael ei addysgu am gyfnod o 55 munud.

Hinsawdd dysgu

Darllenwch y canllawiau i athrawon cyn addysgu am gyngor ar sefydlu rheolau sylfaenol, terfynau cyfrinachedd a ffynonellau cymorth.

Gweithgareddau atodol a gweithgareddau ychwanegol

Er mwyn gwahaniaethu rhwng addysgu mae gan rai gweithgareddau atodol a gweithgareddau ychwanegol wedi'u marcio ag eiconau isod ac ar y sleidiau.

Allweddeiriau

Hawliau plant, lleisiau plant, cyfryngu plentyn-gynhwysol, gwybodaeth, ymgynghori, cynrychiolaeth.

Awgrymiadau dysgu ac amseru

Gweithgaredd	Disgrifiad	Amser a awgrymir
Cyflwyniad	Amcanion a chanlyniadau dysgu; adborth ar y gwaith cartref.	6 mun
Crynhoi Erthygl 12	Bydd dysgwyr yn cwblhau'r ymarfer llenwi bylchau i grynhoi Erthygl 12.	2 mun
Gweithgaredd sylfaenol	Bydd y dysgwyr yn llunio map meddwl o sut y gallai Tom fod yn teimlo ac yna'n ystyried pa gwestiynau a allai fod ganddo a'i anghenion cymorth.	6 mun
Y 'cyloch galar'	Bydd y dysgwyr yn ystyried y 'cyloch galar' a sut y gallai Samir, ffrind Tom, gefnogi Tom pan fydd ei rieni'n gwahanu.	6 mun
Fideo Hawl i Siarad?	Bydd dysgwyr yn gwylio fideo Hawl i Siarad? ac yn nodi'r 3 hawl sydd gan bobl ifanc pan fydd rhieni'n gwahanu.	7 mun
Cwis cyflym	Bydd dysgwyr yn ateb cwestiynau cwis cyflym yn seiliedig ar fideo Hawl i Siarad?	3 mun
Cywir neu anghywir	Cwis cywir neu anghywir gau i asesu gwybodaeth dysgwyr.	2 mun
Chwalu mythau	Bydd dysgwyr yn ystyried rhai camddealltwriaethau cyffredin ynghylch hawliau cyfreithiol.	5 mun
Newidiadau i'r gyfraith ar ysgariad	Bydd dysgwyr yn ystyried manteision ac anfanteision y gyfraith ar ysgariad 'yn seiliedig ar fai' ac yn ystyried y newidiadau i gyfraith ysgariad i gyflwyno system 'dim bai'.	7 mun
Ffynonellau cymorth	Bydd dysgwyr yn dysgu am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc y mae eu rhieni yn gwahanu.	4 mun
Asesiad diweddbwynt	Bydd dysgwyr yn ailedrych ar y map meddwl gwaelodlin ac yn ei adolygu fel y bo'n briodol.	5 mun
Gwaith cartref neu dasg ychwanegol	Crynhoi a gosod gwaith cartref/estyniad i'r gweithgaredd.	2 mun

Asesiad sylfaenol



⑥ Cyflwyniad - sleid 14-17

Trafodwch neu ailedrychwch ar y rheolau sylfaenol ar gyfer y sesiwn ddysgu. Cyflwynwch yr amcan a chanlyniadau dysgu ac eglurwch y bydd y dysgu heddiw yn archwilio hawliau pobl ifanc o dan Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan fydd penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau yn cael eu gwneud, gan gynnwys pan fydd eu rhieni yn gwahanu.

Fel gwaith cartref neu dasg ychwanegol, efallai eich bod wedi gofyn i ddysgwyr ysgrifennu am fater yr hoffent ymgyrchu yn ei gylch a pham. Fel rhan o hyn, roedd gofyn iddynt ymchwilio i weithredwyr amlwg sy'n ymgyrchu dros eu dewis fater ac ystyried pa gamau y gallent eu cymryd eu hunain i ymgyrchu ar y mater hwn yn y dyfodol - gweler sleid 17 am fanylion ymgyrchwyr.

(I'ch atgoffa, efallai eich bod wedi gofyn i'r dysgwyr fel **gweithgaredd ychwanegol** i ystyried sut y gallent ymgyrchu dros y mater o'u dewis o fewn cymuned eu hysgol. Fel **gweithgaredd atodol** efallai eich bod wedi rhoi enw person ifanc sy'n 'lleisio'i barn' i'r dysgwyr).

Yn dibynnu ar y dasg a osodwyd, **gofynnwch** i un neu ddau o ddysgwyr roi adborth ar y mater yr hoffent ymgyrchu yn ei gylch/gweithredwyr amlwg sy'n ymgyrchu dros y mater o'u dewis ac ati.

O.N. Mae rhywfaint o hyblygrwydd gan athrawon felly os ydych wedi dewis peidio â gosod y gwaith cartref/tasg ychwanegol bydd gennych amser ychwanegol i ymdrin â'r gweithgareddau allweddol yn fanylach.



② Crynodeb Erthygl 12 - sleid 18

Yn Adnodd 2 o'r Hawl i Siarad? bydd dysgwyr yn archwilio'r ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt pan fydd eu rhieni'n gwahanu a sut i gael gafael ar y cymorth hwn. Bydd hyn yn cael ei drafod fel rhan o hawl Erthygl 12 pobl ifanc i leisio eu barn ac i oedolion wrando arni a'i chymryd o ddifrif. I gychwyn hyn ac i grynhoi, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r geiriau a awgrymir i lenwi'r bylchau yn Erthygl 12 (gweler y geiriau ar y sleid). Yn y modd sioe sleidiau, mae'r dasg llenwi geiriau yn ymddangos heb y geiriau a awgrymir, gyda'r geiriau a awgrymir yn ymddangos ar glic i roi'r opsiwn i chi wneud yr ymarfer fel y dasg ychwanegol.



Gweithgaredd atodol: ystyriwch roi dim ond y tri gair sydd eu hangen ar ddysgwyr i lenwi'r bylchau.



Gweithgaredd ychwanegol: ystyriwch ofyn i ddysgwyr lenwi'r bwllch heb awgrymu unrhyw eiriau.



6 Gweithgaredd sylfaenol: Map meddwl o deimladau – sleid 19

Rhowch ychydig funudau i'r dysgwyr ddarllen y senario ac yna gofynnwch i bob un ohonyn nhw (heb ymgynghori) i dynnu cylch gyda'r gair 'Tom' yn y canol. [Os yw dysgwyr yn gyfarwydd â 'mapio meddwl' yna gallwch chi egluro mai dyma beth maen nhw'n mynd i'w wneud. Os na, eglurwch 'mapio meddwl' iddyn nhw h.y. byddan nhw'n llunio diagram gyda thema ganolog (yma, y cymeriad, Tom) ac yna'n ymestyn allan i themâu gwahanol (yma, pethau gwahanol mae Tom yn teimlo ac ati) i amlinellu gwybodaeth mewn modd gweledol]. O amgylch ochr allanol y cylch, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu:

- a) sut rydych chi'n meddwl y gallai Tom fod yn teimlo. (Trist, dolurus, yn grac, yn bryderus a/neu wedi drysu)

- b) cwestiynau y credwch y gallai fod gan Tom ar yr adeg hon. (A yw hyn oherwydd rhywbeth rydw i wedi'i wneud? Oes unrhyw obaith y byddwch chi'n aros gyda'ch gilydd? Ble ydw i'n mynd i fyw? Gyda phwy ydw i'n mynd i fyw? Pa mor aml fydda i'n gweld fy rhiant arall? A fydd rhaid i mi newid ysgol? A fydda' i dal yn gallu gweld fy ffrindiau/gwneud fy hobiau/treulio amser gyda'r teulu ehangach? Sut bydd pethau'n cael eu datrys? A fydd rhywun yn gofyn i mi beth rydw i eisiau? Os felly, pwy? A fydd yn rhaid i mi fynd i'r llys?)

- c) cymorth rydych chi'n meddwl y gallai fod ei angen ar Tom ac unrhyw enghreifftiau rydych chi'n gwybod am gymorth a allai fod ar gael iddo. (Gall y cymorth sydd ei angen gynnwys - ffrindiau da o'i gwmpas; cefnogaeth gan gyfoedion sydd wedi bod trwy hyn; cefnogaeth fugeiliol dda yn yr ysgol; gwybodaeth dda ar-lein i gael atebion i rai o'i gwestiynau; rhywun i siarad ag ef am sut mae'n teimlo; rhywun i siarad ag ef am yr hyn yr hoffai ei weld yn digwydd ynghylch trefniadau ar gyfer ei ofal. Gall ffynonellau cymorth gynnwys- cefnogaeth fugeiliol yn yr ysgol; ffrindiau neu deulu ehangach; ChildLine neu wasanaeth cwnsela arall).

Nodwch: Peidiwch â rhoi unrhyw awgrymiadau pellach, hyd yn oed os bydd dysgwyr yn gofyn cwestiynau. Ni ddylent rannu eu syniadau gyda chyd-ddisgyblion yn ystod y gweithgaredd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi weld beth yw credoau a syniadau'r dysgwyr eu hunain cyn i'r sesiwn ddysgu ddechrau.

Ewch o amgylch yr ystafell wrth i'r dysgwyr gwblhau eu mapiau meddwl er mwyn mesur yr hyn y mae'r dysgwyr yn ei wybod/yn ei feddwl/yn ei deimlo/yn ei gredu mewn perthynas â'r testun. Ar ôl i'r dysgwyr gael tua 3-4 munud i gwblhau eu mapiau meddwl,

gofynnwch am adborth y dosbarth cyfan (gan ddefnyddio'r atebion a awgrymir uchod i'ch arwain). **Gofynnwch** i'r dysgwyr beidio ag ychwanegu unrhyw beth arall at eu mapiau meddwl yn ystod y cyfnod adborth gan y dosbarth ac i roi'r rhain i'r naill ochr gan y byddant yn dychwelyd atynt (a'r 3 chwestiwn hyn) ar ddiwedd y sesiwn ddysgu.

Gweithgareddau craidd



6 Cylch galar - sleid 20

Mae'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer Iechyd a Lles yn nodi bod yn rhaid i ddysgwyr allu 'archwilio'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol... [a] deall nad yw teimladau ac emosiynau'n sefydlog nac yn gyson. Dylai dysgwyr hefyd ddysgu 'sut i fynegi eu teimladau [felly] bydd dysgwyr mewn sefyllfa well i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.

Mae'r 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer Iechyd a Lles hefyd yn nodi y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr '[ddatblygu] empathi... [gan eu galluogi] ... i ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol eraill.' Ar gyfer dysgwyr nad yw eu rhieni wedi gwahanu, dylai trafod teimladau person ifanc y mae ei rieni wedi gwahanu eu helpu i ddatblygu empathi a gweithredu mewn ffordd sy'n cefnogi eraill sydd wedi cael profiad o'u rhieni'n gwahanu.

Yma mae'r pwyslais ar y ffaith y gall rhieni'n gwahanu fod yn fath o alar i blant a bod llawer yn mynd trwy gylch pum cam, yn yr un modd yn union ag y maent yn profi galar oherwydd profedigaeth. Dylai'r pwyslais fod ar normaleiddio rhai o'r teimladau a all fod gan bobl ifanc os yw eu rhieni'n gwahanu, megis dicter neu dristwch. Mae profiad pob plentyn yn unigryw ac yn dibynnu'n rhannol ar y sefyllfa gartref cyn gwahanu a pha mor gyfeillgar yw'r rhieni wrth wahanu. Os oedd bywyd y cartref wedi bod yn anodd, gallai'r gwahanu fod yn rhyddhad. Ni fydd pob plentyn yn teimlo'r holl bethau hyn nac yn symud ymlaen mewn modd llinol trwydynt.

Dylid defnyddio technegau ymbellhau, gan ddisgrifio sut mae'n normal i **Tom** deimlo'n ddolurus, yn drist, wedi drysu, yn grac neu wedi'i orlethu. Dylid normaleiddio sut mae'n gyffredin i bobl ifanc deimlo eu bod nhw rywsut yn gyfrifol am y gwahanu (mae agwedd fargeinio'r cylch galar yn cyfeirio at ymdrechion gan bobl ifanc i newid eu hymddygiad eu hunain yn y gobaith y bydd rhiant yn dychwelyd adref).

Rhannwch y dosbarth yn 5 grŵp a rhowch gam i bob grŵp ganolbwyntio arno a rhoi cyngor yn ei gylch. Dywedwch wrth y dysgwyr fod Samir, ffrind Tom o'r clwb pêl-droed, eisiau cefnogi Tom. Rhowch 2 funud i'r dysgwyr feddwl am 3 awgrym da i Samir a allai helpu Samir i gefnogi Tom trwy'r profiad o'i rieni'n gwahanu. Unwaith y bydd y dysgwyr wedi cael cyfle i drafod eu cam yn y cylch galar (yn eu grŵp).

Gofynnwch i bob grŵp roi adborth beth fyddai eu 3 awgrym da i Samir a allai helpu Samir i gefnogi Tom trwy'r profiad o'i rieni'n gwahanu. [Gwrandewch ar sut mae'n teimlo, heb farnu a 'byddwch yno' iddo; helpwch ef i geisio cymorth bugeiliol yn yr

ysgol; rhowch sicrwydd iddo nad ef sydd ar fai am y gwahanu a'i annog i gadw i fyny â gweld ffrindiau, hobïau, ymarfer corff ac ati.]



7 Fideo Hawl i Siarad? – sleid 21

Dangoswch fideo Hawl i Siarad? i'r dosbarth gan ofyn i'r dysgwyr, wrth iddynt wylio, wneud nodyn ac yna rhoi adborth ar y tri pheth y mae'n dangos bod gan bobl ifanc hawl iddynt o dan CCUHP pan fydd eu rhieni'n gwahanu.

Pwyswch control, cliciwch ar ddolen 'Hawl i Siarad?' i chwarae'r fideo. Mae dolen i fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r fideo.

Gofynnwch am adborth gan y dosbarth – dylai dysgwyr nodi bod gan bobl ifanc hawl i **wybodaeth, ymgynghoriad ac (os oes angen) cynrychiolaeth**. Pwysleisiwch fod y rhain i gyd yn wirfoddol – mae gan bobl ifanc yr hawl i leisio'u barn ac i gael eu hymgyngori, ond yn yr un modd mae ganddyn nhw'r hawl i beidio â chael eu hymgyngori os nad ydyn nhw'n dymuno hynny.



Gweithgaredd atodol:

Ystyriwch awgrymu bod dysgwyr yn nodi 1-2 bwynt allan o'r fideo yn unig.



Gweithgaredd ychwanegol:

Ystyriwch ofyn i'r dysgwyr nodi'r gwahanol ffyrdd y dywedodd Chloe y gallai Tom sicrhau bod ei lais yn cael ei glywed – (cyfarfod â'r cyfryngwr os oedd ei rieni'n mynd i gyfryngu; siarad â Chynghorydd Llys Teulu (FCA) neu weithiau'r barnwr os oedd ei rieni'n mynd i'r llys a chael cyfreithiwr i'w gynrychioli yn y llys os oes angen).



3 Cwis cyflym - sleid 22

I atgyfnerthu'r dysgu o'r fideo, cymerwch 3 munud i ofyn i'r dosbarth ateb y 5 cwestiwn. Er mwyn sicrhau bod pawb yn cymryd rhan, naill ai darparwch daflen i ddysgwyr ei chwblhau/cyfeirio'n ôl ati os ydynt yn gweld bod angen y wybodaeth arnynt yn y dyfodol (mae taflen ar ddiwedd y Canllaw hwn i Athrawon) neu gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu eu hatebion cyn gofyn i ddysgwyr unigol roi ateb i gwestiwn.

Yn y modd sioe sleidiau, dilynir pob cwestiwn yn y blwch ar y chwith gan ateb yn y blwch ar y dde.



2 Cywir neu anghywir - sleid 23

Dywedwch wrth y dysgwyr fod Samir, ffrind Tom, wedi bod yn helpu i gefnogi Tom wrth i'w rieni wahanu. Mae wedi peri i Samir feddwl am rai o'u ffrindiau eraill o'r clwb pêl-droed nad yw eu rhieni'n briod. Mae Samir yn meddwl tybed beth allai ddigwydd pe bai'r rhieni hyn yn gwahanu.

I sefydlu'r ymarfer chwalu mythau ar y sleid nesaf, ewch drwy'r cwis cywir neu anghywir hwn. Yn y modd sioe sleidiau, dilynir pob cwestiwn yn y blwch ar y chwith gan ateb yn y blwch ar y dde. Am restr termau, gweler uchod. Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn ymgysylltu'n weithredol â'r dysgu, gofynnwch i bob dysgwr roi ei law i fyny neu i lawr/bawd i fyny neu i lawr, yn dibynnu ar beth yw'r ateb yn eu barn nhw.



5 Chwalu mythau - sleid 24-26

Pan fydd rhieni'n gwahanu, fel y mae'r dysgwyr newydd ddysgu, mae gan bobl ifanc hawl i wybodaeth. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth y maent yn debygol o fod ei heisiau am y ffynonellau cymorth sydd ar gael iddynt (sy'n dilyn yn 'ffynonellau cymorth' ar sleid 30 isod) a manylion y broses ei hun – Beth fydd yn digwydd? Sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud?

Dim ond trosolwg o'r broses yw'r wybodaeth yma, gyda'r nod o chwalu rhai mythau a chamddealltwriaethau cyffredin.

1. Yr unig ffordd i ffurfioli perthynas yw priodi.
2. Mythau ynghylch hawliau pobl sy'n cyd-fyw – 'myth priodas y gyfraith gyffredin'.
3. Rhaid i rieni fynd i'r llys i roi trefn ar bethau.

Rhoddir mwy o fanylion am y gyfraith ar sleidiau athrawon 8-12.

Myth 1: Yr unig ffordd i ffurfioli perthynas yw priodi.

Mewn gwirionedd: Gall cyplau cymysg ac un rhyw briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil: mae'r ddau yn gofyn am broses llys i ddod â'r berthynas i ben yn gyfreithiol os yw'n chwalu.

Myth 2: Ar ôl cyfnod penodol gyda'i gilydd/os oes ganddyn nhw blentyn gyda'i gilydd, mae gan barau sy'n cyd-fyw yr un hawliau â pharau priod: 'Myth priodas y gyfraith gyffredin'.

Mewn gwirionedd: Perthnasoedd cyd-fyw yw'r math o deulu sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru a Lloegr¹³ ond, yn wahanol i'r rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil, nid oes gan gydbreswylwyr hawl i hawlio cymorth ariannol oddi wrth ei gilydd os ydynt yn gwahanu (er bod yn rhaid i'r ddau riant gefnogi eu plant yn ariannol).

Myth 3: Rhaid i rieni fynd i'r llys i roi trefn ar bethau.

¹³ Yn 2020, amcangyfrifwyd bod 21% o unigolion 16 oed a hŷn a oedd yn byw mewn cwpl yng Nghymru yn cyd-fyw (322,697 o unigolion) a 79% yn briod neu mewn partneriaeth sifil (1,214,854 o unigolion) (Gweler y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 16 Rhagfyr 2021: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesby maritalstatusandlivingarrangementswales>, Tabl 4).

Mewn gwirionedd: Anogir rhieni'n gryf i gytuno ar drefniadau arian a gofal plant heb fynd i'r llys, lle bynnag y bo modd.



7 Newidiadau i'r gyfraith ar ysgariad - sleid 27-29

Sleid 27: Yn 2020, roedd tua 59% o deuluoedd yng Nghymru gyda phlant dibynnol yn briod, 18% yn cyd-fyw a 23% yn deuluoedd un rhiant.¹⁴ Er bod cyfraddau cyd-fyw yn cynyddu, bydd y rhan fwyaf o rieni sy'n gwahanu wedi bod yn briod. Yma, felly, rydym yn edrych yn fras ar y broses o ysgariad, a fydd yn newid ym mis Ebrill 2022.

Eglurwch i'r dysgwyr fod gan wahanol grefyddau farn wahanol ar ysgariad, a bydd y safbwyntiau hynny'n cael eu parchu, ond nid dyma ffocws y dysgu.

Gelwir y sawl sy'n gwneud cais am yr ysgariad yn 'Ymgeisydd' a gelwir y parti arall yn 'Atebydd'.

Eglurwch i'r dysgwyr, o dan yr 'hen' gyfraith (mewn grym tan Ebrill 2022), Deddf Achosion Priodasol 1973, os oedd priod eisiau ysgaru'n gyflym roedd rhaid iddo brofi bod y llall wedi godinebu (cael rhyw gydag aelod o'r rhyw arall nad ydynt yn briod ag ef) neu wedi ymddwyn yn afresymol. Os bydd yr Atebydd yn gwrthwynebu'r honiad yna gall amddiffyn y cais, ond anaml mae hyn yn digwydd gan ei bod yn broses hynod gostus sy'n cynnwys gwrandawiadau llys. Os nad yw Ymgeisydd yn dymuno honni bai byddai angen iddo ddangos ei fod wedi gwahanu am ddwy flynedd (ar yr amod bod y parti arall yn cytuno) neu bum mlynedd os nad yw'r parti arall yn cytuno (mae un ffaith dechnegol arall am ddwy flynedd o wreigadiad ond anaml y defnyddir hwn). Mae'r gyfraith bresennol wedi'i beirniadu'n eang gan y gall y gofyniad i 'feio' y person arall gynyddu gelyniaeth. Mae mwyafrif y gwledydd gorllewinol Saesneg eu hiaith: UDA, Canada ac Awstralia yn ogystal â llawer o Ewrop wedi bod â system ysgaru dim bai ers blynnyddoedd lawer.

[DS, rhag ofn y bydd dysgwr yn gofyn, mae'r gofynion ar gyfer dod â pherthynas gyda pherson o'r un rhyw i ben yr un fath yn eu hanfod â dod â phriodas gyda pherson o wahanol ryw i ben, ac eithrio na ellir dibynnu ar odineb oni bai ei fod yn ymwneud â chyfathrach rywiol ag aelod o'r rhyw arall. Nid yw godineb yn ffaith y gall y parti ddibynnu arni i ddod â phartneriaeth sifil i ben. Mae cael gwared ar fai, sy'n cael ei drafod ar sleid 29, yn cael gwared ar yr anghysondeb hwn a'r diffyg agwedd deg a chyson ar gyfer pob cwpl – mae hwn yn bwynt lefel uwch, felly dylid sôn amdano dim ond os yw dysgwr yn ei godi].

Sleid 28: Dywedwch wrth y dysgwyr fod Tom a Samir newydd ddysgu yn yr ysgol am y newidiadau sy'n digwydd i'r gyfraith ysgaru. Dywedwch wrth y dysgwyr fod Tom yn meddwl bod y gyfraith hon wedi dyddio ond nid yw ei ffrind Samir mor siŵr. Mewn parau, **gofynnwch** i'r dysgwyr greu 2 restr – gan nodi ar un rhestr o leiaf 3 rheswm

¹⁴ Gweler

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesby maritalstatusandlivingarrangementswales>, Tabl 4

pam y gallai Tom feddwl bod y gyfraith wedi dyddio (beth yw 'anfanteision' y gyfraith?), ac ar y llall o leiaf 3 rheswm y gallai Samir anghytuno (beth yw manteision y gyfraith?). **Gofynnwch** i rai o'r dysgwyr roi adborth ar yr hyn maen nhw wedi'i roi ar y 2 restr.

Nawr eglurwch i'r dysgwyr pam y teimlwyd bod angen y newid a beth mae'r gyfraith 'newydd' yn ei nodi. Eglurwch fod diwygiadau ehangach yn y system cyfiawnder teuluol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar leihau gwrthdaro a hyrwyddo datrysiad, ond eto gall honni bai achosi trallod, gwaethygu gwrthdaro, cynyddu costau a gwneud datrysiad yn llai tebygol. Y gobaith yw y bydd symud i ysgariad dim bai yn ei wneud yn llai cas ac felly'n arwain at ganlyniadau gwell i blant.

Mae Deddf Ysgaru, Diddymu a Gwahanu 2020 yn tynnu bai o'r broses. Mae'r sail ar gyfer ysgariad yn aros yr un fath – rhaid bod y briodas wedi chwalu'n anadferadwy – ond mae treigl amser yn profi hyn. Gall yr Ymgeisydd wneud cais am orchymyn terfynol 26 wythnos ar ôl ffeilio'r cais. Nid oes opsiwn i amddiffyn yr ysgariad a gellir gwneud y cais ar y cyd. I rai, bydd yn cynyddu'r amser y mae'n ei gymryd i gael ysgariad oherwydd nad yw'r ffeithiau 'cyflym' fel y'u gelwir sef godineb neu ymddygiad afresymol yn berthnasol bellach.

Sicrhewch, wrth addysgu hyn, eich bod yn ystyried gyda'r dysgwyr 'hawliau' y gwahanol bartïon yr effeithir arnynt a sut y gall hawliau fod mewn tensiwn weithiau â'i gilydd. Er enghraifft, os oes 'hawl' i ysgariad ar gyfer pob oedolyn, heb orfod honni bai, os yw un person eisïau'r ysgariad ond nad yw'r llall, yna bydd 'hawl' un person i ysgariad ar draul yr 'hawl i fywyd teuluol' sydd gan berson arall o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, Erthygl 8. Yn yr un modd, hyd yn oed os yw'r penderfyniad i wahanu yn un cydfuddiannol, bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar 'hawl i fywyd teuluol' y plentyn. Hefyd, gall ysgariad arwain at anfantais economaidd i fenywod, gan eu bod yn dueddol o leihau eu horïau gwaith i ofalu am blant felly yn dueddol o fod yn ennill llai na dynion os oes ganddynt blant- ond mae rheolau mewn lle i sicrhau bod cyfraniad merched i fywyd teuluol yn cael eu hystyried yn gyfartal â chyfraniadau ariannol.

Atgoffwch y dysgwyr ein bod wedi dysgu yn fideo Hawl i Siarad? bod rhieni Chloe, Jack a Rosie wedi gwneud cais i'r llys oherwydd na allent gytuno ar drefniadau ar gyfer y plant. Os gwnaed cais am ysgariad cyn 6 Ebrill 2022, yna byddai'n rhaid iddynt fod wedi gwneud cais am ysgariad o dan yr hen gyfraith a bai honedig os oeddent am gael ysgariad heb aros am o leiaf dwy flynedd pe bai'r ddau yn cytuno i'r ysgariad neu bum mlynedd os oedd un yn gwrthwynebu.

Gofynnwch i'r dysgwyr roi sylwadau ar ba effaith maen nhw'n meddwl y gallai fod wedi'i chael ar yr achos pe bai rhieni Chloe wedi ysgaru ar ôl i'r gyfraith newid ac felly nid oedd 'fai' yn berthnasol.

Ateb: Gallai fod wedi costio llai. Gallai fod wedi gwneud y gwahaniad yn llai cas. Gallai fod wedi ei gwneud yn haws i'r rhieni gytuno ar y trefniadau ar gyfer y plant rhyngddynt eu hunain ac felly wedi gwneud cais i'r llys yn llai tebygol. Oherwydd y gallai fod wedi bod yn fwy cyfeillgar, mae'n bosib y byddai'r rhieni wedi bod yn fwy agored i wrando ar

farn eu plant (ac felly byddai wedi bod yn fwy tebygol y byddai hawliau Erthygl 12 y plant wedi'u cynnal o'r cychwyn cyntaf).



Gweithgaredd ychwanegol: (Diwedd sleid 28) Ystyriwch ofyn i'r dysgwyr fyfyrion ar sut maen nhw'n meddwl y gallai cyfraddau priodas, partneriaeth sifil a chyd-fyw newid yn y dyfodol – ydyn nhw'n meddwl y bydd y duedd o gyfraddau cyd-fyw cynyddol yn parhau, neu a fydd y gyfraith ysgariad newydd yn annog cyfraddau uwch o briodas? A allai'r gyfraith ysgariad newydd annog cyfraddau uwch o ysgariad?



4 Ffynonellau cymorth - sleid 30

Atgoffwch y dysgwyr o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn yr ysgol gan y tîm bugeiliol. Mae llawer o wybodaeth a chymorth ar gael i bobl ifanc ar-lein hefyd gan gynnwys:

Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol, Cymru (NYAS Cymru): Mae NYAS Cymru yn darparu ystod o wasanaethau seiliedig ar hawliau i blant a phobl ifanc trwy rwydwaith o eiriolwyr cymwys. Mae eiriolwyr yn sicrhau y gwrandewir ar farn plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn penderfyniadau a wneir yn eu cylch. Mae NYAS Cymru yn gweithio i sicrhau bod hawliau Erthygl 12 pobl ifanc i wybodaeth, ymgynghori a chynrychiolaeth yn cael eu parchu. Mae'n darparu gwybodaeth i bobl ifanc ar ei wefan; llinell gymorth am ddim ac eiriolwr i bobl ifanc. Bydd yr eiriolwr yn darganfod beth yw dymuniadau a theimladau'r person ifanc. Byddant yn helpu'r person ifanc i ddechrau, newid neu stopio rhywbeth yn ei fywyd. Gallant fynd gyda'r person ifanc i gyfarfodydd, os yw'r person ifanc eisiau iddynt wneud hynny, a'u helpu i ddweud wrth bobl beth mae'r person ifanc ei eisiau neu siarad ar ei ran os nad yw'n dymuno gwneud hynny. Bydd yr eiriolwr yn cynrychioli person ifanc yn y llys, os oes angen.

Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC): Mae NACCC yn rhedeg rwydwaith o 350 o ganolfannau cyswllt, gan gynnwys 13 yng Nghymru, sy'n darparu gofod diogel, niwtral, croesawgar i blant dreulio amser gyda'u rhieni (neu bobl eraill sy'n bwysig iddynt, megis neiniau a theidiau). Defnyddir canolfannau cyswllt ar gyfer plant, fel arfer hyd at tua 9 oed, yn aml fel cam i gyswllt i ffwrdd o ganolfan gyswllt lle nad yw rhieni wedi gallu cytuno ar gyswllt. Mae gan wefan NACCC lawer o wybodaeth i blant a phobl ifanc i'w helpu i ddeall sut y gallant fod yn teimlo pan fydd eu rhieni'n gwahanu, yn ogystal â fideos a straeon am brofiadau pobl ifanc eraill o ddefnyddio canolfan gyswllt. Er bod canolfannau cyswllt yn cael eu defnyddio ar gyfer carfan iau o blant, gall y wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n gweithio yng Nghymru Cynnydd 4 a 5 oherwydd efallai bod ganddynt frodyr a chwiorydd iau/ teulu ehangach/ ffrindiau teulu yn y grŵp oedran iau hwn.

Comisiynydd Plant Cymru: Mae Comisiynydd Plant Cymru yn siarad ar ran plant a phobl ifanc Cymru ar faterion pwysig. Mae'r Comisiynydd yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod am eu hawliau o dan CCUHP; yn gwrandao ar blant a phobl ifanc i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw; yn cynghori plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n

gofalu amdanynt os ydynt yn meddwl eu bod wedi cael eu trin yn annheg ac yn dylanwadu ar y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, gan sicrhau eu bod yn cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc pobl. Mae gan y wefan lawer o adnoddau i bobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas â'u hawliau CCUHP.

Cafcass Cymru: Mae Cafcass yn sefyll am y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd. Sefydliad yn Llywodraeth Cymru yw Cafcass Cymru sy'n rhoi llais i unrhyw blentyn yng Nghymru sy'n ymwneud â'r system Cyfiawnder Teuluol. Pan gaiff ei benodi gan y llys teulu, mae Cynghorydd Llys Teulu (FCA) Cafcass Cymru yn gweithio gyda theuluoedd a sefydliadau eraill i ddod o hyd i atebion hirdymor i'r plentyn. Mae gwefan Cafcass Cymru yn cynnwys llawer o wybodaeth i bobl ifanc, gan gynnwys llyfryn yn esbonio hawliau plant o dan CCUHP a phroses y llys os yw rhieni'n gwneud cais i'r llys.

Relate Cymru: Mae Relate Cymru yn cynnig cwnsela i bobl ifanc sy'n cael anawsterau mewn unrhyw faes bywyd, gan gynnwys os yw rhieni'n dadlau neu wedi gwahanu. Mae cwnsela ar gael yn yr ysgol, yn un o Ganolfannau Relate Cymru, trwy sgwrs we, dros y ffôn neu ar-lein. Gall pobl ifanc ddisgwyl cael cymorth gan gwnselydd cefnogol ac anfeirniadol. Gallant gael eu hatgyfeirio gan athro, gweithiwr cymdeithasol, neu gallant ofyn am gael gweld cwnselydd eu hunain - mae'r hyn y maent yn ei ddweud yn gyfrinachol oni bai bod y cwnselydd yn poeni am ei ddiogelwch.

Childline Cymru: Mae gan Childline Cymru lawer iawn o wybodaeth, cyngor a chymorth i bobl ifanc y mae eu rhieni wedi gwahanu, sydd ar gael ar-lein, dros y ffôn neu drwy gwnsela un-i-un.

Asesu'r dysgu



5 Asesiad diweddbwynt – sleid 31

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychwelyd at y map meddwl a luniwyd ganddynt yn gynharach (erbyn hyn byddant wedi dysgu beth yw map meddwl, os nad oeddent eisoes yn gyfarwydd ag ef) ac mewn lliw gwahanol ychwanegu at eu map meddwl trwy ysgrifennu:

- unrhyw eiriau ychwanegol am sut y credwch y byddai Tom wedi teimlo pan ddywedodd ei rieni wrtho eu bod yn gwahanu
- unrhyw eiriau am sut rydych chi'n meddwl y gallai Tom fod wedi bod yn teimlo ar ôl iddo ddysgu am ei hawliau i fynegi ei farn a siarad â'r cyfryngwr a welodd ei rieni? (Gobeithio y bydd geiriau fel gobeithiol, hapusach, cryfach a/neu rymusol yn cael eu hawgrymu. Mae'n bwysig cydnabod serch hynny y gallai fod yn teimlo'n drist o hyd.)
- ble gallai Tom ddod o hyd i wybodaeth a chymorth i'w helpu ar yr adeg hon ac yn y dyfodol (gan roi enghreifftiau penodol o sefydliadau)?

Dylai dysgwyr grybwyll: Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol, Cymru (NYAS Cymru); Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC); Comisiynydd Plant Cymru; Cafcass Cymru; Relate Cymru a/neu Childline Cymru.



2 Gwaith cartref neu dasg ychwanegol - sleid 32-33

Gwaith cartref neu dasg ychwanegol: Yn waith cartref, rhwch un o'r ffynonellau cymorth a restrir ar gyfer pobl ifanc y mae eu rhieni wedi gwahanu i bob bwrdd. Gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhywfaint o ymchwil annibynnol ar y ffynhonnell cymorth a roddwyd iddynt ac i fod yn barod i rannu rhywfaint o wybodaeth a ddysgwyd ganddynt o'u hymchwil am hawliau plant pan fydd rhieni'n gwahanu.

Mantais ychwanegol y dasg gwaith cartref hon yw y bydd unrhyw ddysgwr sydd angen y manylion cyswllt hyn am resymau personol, naill ai iddyn nhw neu i ffrind, yn gallu eu nodi heb dynnu sylw at hyn.

Mae **sleid 33** yn nodi'r pedwar cwestiwn y gofynnir i'r dysgwr ymchwilio iddynt am un o'r chwe sefydliad a roddwyd iddyn nhw. Mae manylion y sefydliadau o'r sleid flaenorol yn cael eu hailadrodd yma fel bod person ifanc sydd am ysgrifennu'r manylion heb dynnu sylw ato'i hun yn gallu gwneud hynny.

Hawl i Siarad?

Hawliau pobl ifanc o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Adnodd 2: Cwis cyflym

Beth ddysgoch chi o wyllo animeiddiad Hawl i Siarad? Atebwch y pum cwestiwn isod yn y blychau.

Cwestiwn	Ateb
1. Beth yw enw'r person sy'n helpu rhieni i ddod i gytundeb heb fynd i'r llys?	
2. Ble bu Rosie mewn cysylltiad â'i thad i ddechrau?	
3. Beth mae Cynghorydd Llys Teulu yn ei wneud?	
4. Oes rhaid i blant fynd i'r llys os yw eu rhieni'n gwneud cais i'r llys?	
5. A all plant wneud eu cais eu hunain i'r llys?	